Mae modd cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg, ac ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg,

Mae modd rhannu'r holl swyddi os na nodir fel arall.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn:-

- cyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned.

- cyflogwr sydd wedi ymrwymo i fod yn hyderus o ran anabledd.
- cyflogwr sydd yn gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog.
- ymwybodol o Awtistiaeth ac wedi ymrwymo i ddileu unrhyw rwystrau at gyflogaeth.
- ymrwymo i gefnogi pobl ifanc sydd yn gadael ein gofal i gael cyfleoedd newydd a phrofiad.

PROFFIL Y SWYDD

TEITL Y SWYDD: Uwch Ymarferydd - Gwasanaeth Troseddau Ieuencid (Parhaol. Rhannu Swydd)

CYFEIRNOD: SCS235

GRADD: Band J - SCP 35-39 (£44,711 – £48,710)

ORIAU: 18.5 yr Wythnos

PATRWM GWAITH: Rhannu swydd – Oriau i'w cadarnhau,

LLEOLIAD: Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga a chylch ehangach Sir Fynwy a Thorfaen

GWIRIAD GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS)

Mae penodiad i'r swydd hon wedi'i eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwr ac mae'n destun y gwiriad DBS canlynol

(b) Gwiriad Manwl gyda Gwiriad Rhestr Wedi'i Wahardd o Blant/Oedolion

YN ATEBOL I: Adam Nash : Rheolwr Tîm Gweithredol

Pwy ydym ni? Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Sir Fynwy a Thorfaen

Ein diben:-

Nod Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Sir Fynwy a Thorfaen yw atal troseddu ac aildroseddu gan bobl ifanc yn y ddwy ardal awdurdod lleol, drwy ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n cael ei arwain gan anghenion i bobl ifanc, eu teuluoedd, dioddefwyr a'r cymunedau yr ydym yn gwasanaethu ynddynt.

Diben y swydd hon:-

Mae Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Sir Fynwy a Thorfaen yn wasanaeth amlasiantaethol sydd â'r brif nod o atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac aildroseddu gan blant a phobl ifanc. Fel rhan o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid byddwch yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ac ymyriadau integredig i bobl ifanc a'u teuluoedd a dioddefwyr troseddau. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cymorth i bobl ifanc yn y System Cyfiawnder Troseddol sy'n arddangos ymddygiad heriol, gwrthgymdeithasol a throseddol. Byddwch hefyd yn cydweithio ag asiantaethau partner er mwyn adeiladu strategaethau lleol effeithiol i leihau troseddu gan bobl ifanc a chwarae rhan allweddol yn natblygiad parhaus arfer effeithiol a gorau a sicrhau ansawdd.

Eich cyfrifoldebau fydd:-

- Cymryd cyfrifoldeb am reoli achosion cymhleth o fewn y gwasanaeth.
- Cynorthwyo'r Rheolwyr Tîm Gweithredol i hyrwyddo arfer proffesiynol da ymhlith aelodau'r tîm ac i ddirprwyo yn absenoldeb(au) y Rheolwyr Tîm.
- Bod yn arloesol wrth weithio tuag at y canlyniadau gorau posibl i bobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid, neu ar gyrion y System Cyfiawnder Ieuenctid, fel ymarferydd a hefyd fel arweinydd dynodedig ar feysydd ymarfer penodol.
- Sicrhau bod y cyfrifoldebau statudol angenrheidiol a pholisïau a gweithdrefnau adrannol yn cael eu cyflawni ar draws y gwasanaeth.
- Cynorthwyo gyda datblygiad proffesiynol staff eraill o fewn y gwasanaeth.
- Ymgymryd â hyfforddiant sy'n briodol i lefel yr arbenigedd sy'n ofynnol gan ddeiliad y swydd.
- Sicrhau y darperir safon uchel o gadw cofnodion a'r weinyddiaeth angenrheidiol a, lle y bo'n briodol, darparu lefelau penodol o oruchwyliaeth ac ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol.
- Cefnogi a gweithredu'n weithredol egwyddorion ac arfer cyfle cyfartal fel y nodir ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.

Darparu Defnyddwyr Gwasanaeth

- Sicrhau bod gwasanaethau i bobl ifanc, eu teuluoedd a dioddefwyr troseddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn briodol i lefel eu hangen.
- Sicrhau bod arfer gyda'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn cadw at safonau iechyd a diogelwch bob amser.
- Cychwyn ac adolygu/gwerthuso ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth fel y bo'n briodol.
- Annog defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan mewn prosesau cynllunio ac adolygu.

Datblygiad Gwasanaeth

- Paratoi, neu gyfrannu at baratoi, adroddiadau mewn achosion priodol a fydd yn cynorthwyo llysoedd i ddedfrydu troseddwyr ifanc.
- Cynnal asesiadau a chwblhau adroddiadau perthnasol er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gynllunio, ymyrryd a goruchwyllo pobl ifanc sy'n ymwneud â chapasiti gwirfoddol neu statudol gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- Gwneud asesiadau proffesiynol o anghenion pobl ifanc unigol er mwyn i'r gwasanaeth allu cyflawni ei ymyriadau statudol ac ataliol yn effeithiol.
- Cychwyn a chadw mewn cysylltiad â dioddefwyr troseddau lle mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am oruchwyllo'r troseddwyr.
- Cynrychioli'r tîm mewn gwrandawiadau llys lleol a chyfarfodydd asiantaeth partner perthnasol sy'n cynnwys troseddwyr ifanc.
- Datblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gydag amrywiaeth o asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i droseddwyr ifanc.
- Rhoi cymorth a chyngor i rieni/gofalwyr pobl ifanc sy'n destun goruchwyliaeth gan y gwasanaeth.

- Cymryd rhan mewn cynnal systemau gwybodaeth sy'n rhan annatod o berfformiadau llwyddiannus o'r gwasanaeth.
- Gweithredu fel swyddog cyfrifol wrth oruchwyllo troseddwr ifanc sy'n destun ymyrraeth yn y gymuned gan y gwasanaeth lle y'u dynodir gan y rheolwr tîm.
- Gweithio gyda phobl ifanc a darparu gwasanaeth iddynt mewn swydd ataliol fel y nodir ym mhrosesau perthnasol y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid.
- Bod yn gyfrifol am gyfrannu at ddatblygu arferion a gweithdrefnau rhyngasiantaethol arloesol o fewn cylch gwaith y gwaith tîm.
- Sefydlu a chynnal cysylltiadau proffesiynol effeithiol â staff a strwythurau mewn sefydliadau secondio er mwyn hyrwyddo amcanion y gwasanaeth.
- Darparu amrywiaeth o fentrau atal troseddau ieuencid, ynghyd â chydweithwyr, yn unol â blaenoriaethau'r gwasanaeth.
- Darparu goruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys ymgynghori ag achosion i aelodau eraill o staff.
- Creu dulliau o ymgynghori â phobl ifanc ynghylch dylunio a gwerthuso gwasanaethau y mae'r tîm yn eu darparu.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill o fewn cwrdd y swydd fel y'i dynodir gan y Rheolwr Tîm neu Grŵp Llywio'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid.
- Cymryd rhan fel sy'n ofynnol wrth ddarparu system ddyletswydd 'ar alwad', y tu allan i oriau.
- Sicrhau bod gofal eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain a gofal gweithwyr eraill yn cael ei gynnal h.y. gwirfoddolwyr/gweithwyr sesiynol.

Gweinyddiaeth

- Mewn partneriaeth â Thîm Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, monitro effeithiolrwydd perfformiad gwasanaethau a sicrhau bod targedau gweithredol lleol a cenedlaethol yn cael eu cyrraedd.
- Bod yn gyfrifol am reoli'r cyllidebau hynny o fewn rhychwant cyfrifoldeb deiliaid y swydd.
- Sicrhau bod trafodion ariannol yn cael eu hardystio i'w talu a'u cynnal o fewn y rheoliadau ariannol hynny sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth.
- Sicrhau bod cofnodi a gweinyddu yn y tîm yn bodloni'r safonau gofynnol.

Amrywiol

- Ymgymryd â'r holl dasgau yn unol â pholisi lechyd a Diogelwch fel y mae'n ymwneud â gwasanaethau'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid.
- Mynychu goruchwyliaeth unigol / cyfarfodydd un i un gyda rheolwr Gwasanaeth yn ôl y gofyn.
- Cadw at arferion, polisiau a gweithdrefnau perthnasol y Gwasanaeth a Chyngor Sir Fynwy.
- Mynychu a threfnu cyfarfodydd rheoli rheolaidd y Gwasanaeth.
- Ym mhob tasg a gyflawnir, i sicrhau bod arferion gwrth-ormesol/gwrthwahaniaethol a pholisiau a gweithdrefnau cyfle cyfartal yn cael eu gweithredu'n weithredol ar draws yr ystod lawn o ddarpariaeth y Gwasanaeth.

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n ofynnol gan y rheolwyr, sy'n gymesur â graddio'r swydd hon.
- Cymryd rhan mewn system 'ar alwad' y tu allan i oriau.
- Cynnal arferion gweithio diogel ar gyfer eich hunan ac eraill, yn unol â datganiad polisi'r awdurdod ar lechyd a Diogelwch yn y Gwaith.
- Bod yn gyfrifol am weithredu a monitro iechyd a Diogelwch yn y Gwaith mewn maes dynodedig fel y nodir ym Mholisi a Gweithdrefnau lechyd a Diogelwch yr awdurdod.
- Cefnogi a gweithredu egwyddorion ac arfer cyfle cyfartal fel y nodir ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.

Amrywiad

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn wasanaeth sy'n datblygu a gall union weithrediad y swydd hon newid a datblygu yn unol â thystiolaeth arfer gorau ac anghenion newidiol y gwasanaeth dros gyfnod y cynllun strategol.

Mae Asiantaeth Partner y Gwasanaeth yn cadw'r hawl i amrywio cynnwys y disgrifiad swydd hwn ar ôl ymgynghori i adlewyrchu newidiadau i'r swydd, heb newid cymeriad cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb.

Dyma beth y gallwn ei rhoi i chi:-

- Byddwch yn ymuno â thîm hyblyg a phrofiadol, lle mae cyfleoedd da yn bodoli i gael effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau.
- Bydd eich rôl yn cael ei chefnogi gan ganolbwyntio'n glir ar ddatblygu a goruchwylio staff.
- Fel gwasanaeth amlddisgyblaethol mae gennym adnoddau da ac mae'r dull partneriaeth a fabwysiedir ac a ddatblygir o fewn y gwasanaeth yn galluogi gweithio effeithiol ar draws ystod eang o asiantaethau.
- Cyfle i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg yn unol â'r strategaeth 'Mwy Na Geiriau'.
- Diwrnod ychwanegol o wyliau adeg y Nadolig a'r Pasg ar ben eich lwfans gwyliau hael
- Yn unol ag amcanion y Gwasanaeth, mae gennym bolisi gweithio ystwyth a chynllun hyblyg er mwyn annog cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith
- Cynllun pensiwn rhagorol ac ystod o fuddion eraill

Beth arall sydd angen i chi wybod ... Gwerthoedd Sir Fynwy yw:

Bod yn agored: Rydym yn anelu at fod yn agored ac yn onest er mwyn datblygu perthynas ymddiriedus.

Tegwch: Rydym yn anelu at ddarparu dewis, cyfleoedd a phrofiadau teg a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar gyd-barch.

Hyblygrwydd: Rydym yn anelu at fod yn hyblyg yn ein ffordd o feddwl a gweithredu er mwyn dod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon.

Gwaith Tîm: Rydym yn anelu i weithio gyda'n gilydd i rannu ein llwyddiannau a methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.

Caredigrwydd: Byddwn yn dangos caredigrwydd at bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthynas a'r cysylltiadau sydd gennym gyda'n gilydd wrth ganol pob rhyngweithio

DIOGELU:

Mae Diogelu Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn risg i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn risg. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu

ASESIAD SGILIAU YN Y GYMRAEG:

Byddai sgiliau Cymraeg yn ddymunol: Efallai y bydd gofyn i chi ddysgu neu wella eich sgiliau presennol drwy fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff sy'n cael ei ariannu gan y Cyngor. Caiff hyn ei weithredu os bydd angen am sgiliau Cymraeg yn y swydd.

Yn ogystal:

Mae pob gweithiwr yn gyfrifol am gynnal eu hunain mewn modd sy'n cydymffurfio â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy, yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae'r awdurdod yn gweithredu polisi Gweithle Di-fwg ac mae'n rhaid i bob cyflogai cydymffurfio â hyn.

Manyleb Person

TEITL Y SWYDD: Uwch Ymarferydd

ARDAL/TÎM: Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen

Sut y byddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y swydd? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi dangos eich bod:-

GOFYNION	PWYSIAD UCHEL/CANOLIG/ ISEL	SUT Y PROFIR
1. ADDYSG / CYMHWYSTER/ GWYBODAETH		
<ul style="list-style-type: none"> • Diploma/Gradd Gyntaf/Gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol / CQSW neu CSS. 	Uchel	Ffurflen Gais/ Rhestr Fer
<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth dda o Ddeddf Plant 1989/2004 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gweithdrefnau/rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. 	Uchel	Ffurflen Gais/ Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth dda o Ddeddf Troseddu ac Anrhefn 1998, rheoliadau a chanllawiau, athroniaeth/egwyddorion 	Uchel	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth dda o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 a dull gweithredu mewn graddau. 	Uchel	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Dangos dealltwriaeth a gwybodaeth o ddyletswyddau Swyddog Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cynnwys asesu, darparu adroddiadau a goruchwyliaeth gymunedol. 	Uchel	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth ac ymroddiad I'r fframwaith Ymarfer Effeithlon a Sicrwydd Ansawdd. 	Canolig	Ffurflen Gais Rhestr Fer / Cyfweliad

2. PROFIAD		
<ul style="list-style-type: none"> • Profiad ôl-gymhwyso perthnasol 	Uchel	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o weithio o fewn lleoliad Cyfiawnder Ieuenctid. 	Canolig	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o weithio mewn lleoliad aml-asiantaeth 	Canolig	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o weithio gyda phobl ifanc a all fod yn anodd ymgysylltu â nhw 	Uchel	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o gofnodi / cadw cofnodion trwyadl 	Uchel	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Gallu i ffurfio a gweithredu cynlluniau ac ymyriad effeithlon 	Uchel	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o fonitro a gwerthuso darpariaeth gwasanaeth. 	Uchel	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Gallu i flaenoriaethu gwaith a gwneud penderfyniadau o fewn eich lefel awdurdod eich hun a chymryd cyfrifoldeb amdanynt 	Uchel	Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Gallu i ddatblygu perthynas aml-asiantaeth effeithiol ac adeiladol o fewn y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid ac asiantaethau eraill 	Uchel	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Gallu i gyfrannu at ddatblygu darpariaeth gwasanaeth 	Uchel	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Gallu i arwain a chymell tîm i werthuso ei berfformiad mewn maes penodol ac annog datblygu pellach yn unol â fframwaith Ymarfer Effeithlon a Sicrwydd Ansawdd 	Uchel	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
3. SGILIAU CYFATHREBU		
<ul style="list-style-type: none"> • Gallu i gynhyrchu adroddiadau clir, cydlynus a dadansoddol 	Uchel	Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad
<ul style="list-style-type: none"> • Gallu i gyfathrebu yn effeithiol 		

yn llafar ac mewn ysgrifen	Uchel	Cyfweliad
4. DONIAU A SGILIAU		
<ul style="list-style-type: none"> Gallu i weithio fel aelod o dîm Arddangos ymroddiad a brwdfrydedd yng nghyswllt sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a chymunedau. Ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol fel unigolyn Trin heriau yn frwdfrydig, gwydn a gyda gallu ar gyfer arloesi Bod yn fodlon gweithio tu allan i oriau swyddfa. Bod yn hyddysg mewn cyfrifiadura / dangos parodrwydd i ddysgu sgiliau newydd Trwydded yrru lawn / gyfredol a mynediad i gar. Caiff lwfans milltiroedd a gytunwyd Cyngor Sir Fynwy ei dalu. 	Uchel Uchel Canolig Uchel Uchel Uchel Uchel	Cyfweliad Ffurflen Gais / Rhestr Fer / Cyfweliad Cyfweliad Cyfweliad / Rhestr Fer Cyfweliad / Rhestr Fer Ffurflen Gais Ffurflen Gais / Rhestr Fer
5. CYFLE CYFARTAL		
Bod yn fodlon cydymffurfio gyda pholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor, yn cynnwys dilyn hyfforddiant priodol mewn ymwybyddiaeth o gydraddoldeb	Uchel	Cyfweliad / Rhestr Fer
6. AMGYLCHIADAU ARBENNIG		
Bydd angen i chi fod wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru cyn cael eich penodi.	Uchel	Cyfweliad

Os ydych chi angen mwy o wybodaeth am y swydd hon, cysylltwch ag: **Adam Nash, Rheolwr Gweithredol Ffôn: (01495 76800)**

Dyddiad Cau: 5pm ar 28/11/24

FFRAMWAITH SGILIAU YN Y GYMRAEG

LEFEL 1

Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir. Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr. Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi. Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.

LEFEL 2

Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion. Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg. Gall gynnal sgwrs fer gydag 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad

	<p>unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol. 		
--	---	--	--

LEFEL 3

Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgysiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd. Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd. Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgysiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol. Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol. Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd. Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyd-destun os yw'r pwnc yn gyfarwydd. Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad. Yn gallu ysgrifennu'n gymharol gywir wrth ddrafftio taflen wybodaeth fer neu boster yn Gymraeg yn ôl yr angen.

LEFEL 4

Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith. Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen. Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol. Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion. Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur. Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg e.e. Cysgair, Cysill.

LEFEL 5

Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhof trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr. Gall ddeall amwysedd a naws iaith. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol. Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darllynydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig. Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen. Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.